13 Gorffennaf 2010

Ieuan Wyn Jones AC
Dirprwy Brif Weinidog
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl Ddirprwy Brif Weinidog

Adnewyddu'r Economi

Roedd yn bleser gennyf fynychu lansiad "Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd" yr wythnos ddiwethaf ac i glywed y pwyntiau a godwyd ganddo chi yn ogystal a'ch cydweithwyr. Mae Chwarae Teg yn croesawu'r cynllun a'i nod i ddatblygu seilwaith ac amgylchedd fel y gall busnes flodeuo a ffynnu o'i fewn.

Er mwyn cael economi gynyddol a llwyddiannus mae cyfranogaeth a chyfraniad menywod i'r economi yn allweddol, ac mae'n amlygu ei hun mewn nifer o ffyrdd. Mae'r Rhaglen Adnewyddu'r Economi yn cydnabod fod gan gwahanol ardaloedd a chymunedau daearyddol anghenion gwahanol a bod angen i gynlluniau a rhaglenni cael eu haddasu ar gyfer y gwahaniaethau yma. Yn yr un modd mae gan y gwahanol rywiau yn aml iawn anghenion gwahanol. O ystyried, yn draddodiadol, fod rhaglenni wedi cael eu datblygu i gefnogi amgylchedd mewn gweithle sy'n bennaf yn wrywaidd gyda chyrff sy'n fwyafrif wrywaidd yn gwneud penderfyniadau, nid yw'n syndod bod angen i ni gymryd cam yn ôl i weld os yw'r rhain yn gweithio'r un mor dda i fenywod, ac y bydd angen gwneud addasiadau yn aml iawn.

Bydd adnabod a chyfeirio at y gwahaniaethau hyn yn ffactor dros lwyddiant hanfodol ar gyfer cyflawni amcanion sylfaenol Adnewyddu'r Economi, yn ogystal â chyfeirio at amcanion methiant a chydraddoldeb y farchnad sy'n cael ei ddisgrifio ar dudalen 7 o'r ddogfen. Mae adnabyddiaeth y Rhaglen fod gofal plant yn ffactor bwysig yn enghraifft wych ac rydym yn falch iawn o weld hwn yn cael ei amlygu.

Yn y llythyr hwn rwy'n anelu i amlygu lle y mae'r rhain fwyaf pwysig. Mae ein harbenigedd ni o weithio gyda llywodraeth, cyflogwyr, rheolwyr a menywod unigol wedi rhoi i ni'r dyfnder profiad yn y meysydd hyn ac rydym yn awyddus i ddefnyddio'r arbenigedd i gynorthwyo'r Llywodraeth wrth lunio eu cynlluniau gweithredol.

Mae'r paragraffau canlynol yn gosod allan y meysydd allweddol lle mae angen sylw penodol er mwyn sicrhau fod cynlluniau a rhaglenni yn cael eu llunio a'u cyflwyno er mwyn cael yr effaith fwyaf ymysg menywod.

Pobl ifanc yn cael eu hysgogi ac yn barod am waith

Rydym yn croesawu'r ffocws ar sicrhau fod pobl ifanc yn datblygu sgiliau i gefnogi tyfiant economaidd Cymru, yn enwedig gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg. Tra bod merched ar gyfartaledd yn perfformio yn dda yn yr ysgol, mae tystiolaeth yn dangos nad yw'r perfformiad hwn yn cael ei drosglwyddo mewn i berfformiad economaidd ar yr un lefel, yn enwedig gydag ystyriaeth i yrfaoedd mewn pynciau STEM. Ffactor arwyddocaol (ond nid yr unig ffactor) yw'r penderfyniadau dewis pwnc a dewis gyrfa sy'n cael eu gwneud tra yn yr ysgol, lle mae rhagdybiaethau stereoteipio yn dod i fodolaeth. Felly, bydd angen llunio rhaglenni i ddatblygu sgiliau mewn pobl ifanc gyda hyn mewn golwg.

Mae hyn hefyd yn bwydo mewn i'r mentrau i gynyddu gallu Cymru ar gyfer Ymchwil a Datblygiad yn y meysydd blaenoriaeth sydd wedi eu dynodi, ac yr wyf yn eu trafod isod.

Sgiliau sy'n agor llwybrau gwerthfawr at waith.

Rydym yn cytuno bydd y gyriant i ryddhau potensial newydd mewn i'r economi Gymreig yn cael buddion deublyg o amgylch cynyddu gweithlu gweithgar a brwydro tlodi plant. Mae yna botensial yn gorwedd mewn menywod sy'n cymryd saib yn eu gyrfa ar gyfer cyfnod mamolaeth neu bwrpas gofal, ac yn y rhai hynny sydd am yr un rheswm erioed wedi mentro mewn i'r gweithlu o gwbl.

Er enghraifft, mae angen i ni gynnal cyswllt proffesiynol a darparu cefnogaeth i fenywod sy'n cymryd saib yn eu gyrfaoedd neu gyfnod mamolaeth i sicrhau bod eu sgiliau yn cael eu cynnal a'u cadw tra eu bod allan o'r farchnad lafur, a phan byddant yn barod i ddychwelyd, byddant yn gwneud hynny gyda hyder a'r gallu i ail gydio yn eu gyrfaoedd.

I'r menywod hynny sydd bellaf o'r farchnad lafur, mae'r dyhead neu'r cyfle i ddechrau mewn gyrfaoedd ystyrlon yn aml iawn yn cael ei gyfyngu gan nifer o rwystrau.

Rydym yn gwybod bod gan y menywod hyn wahanol brofiadau i'w cymheiriaid gwrywol, wrth ystyried y disgwyliadau sy'n cael eu rhoi arnynt, eu dyheadau, a'r rhwydweithiau a chyfalaf cymdeithasol y gallant dynnu oddi arno. Rhaid i'r cynlluniau sy'n cael eu gweithredu fod yn sensitif i anghenion penodol y grwpiau hyn, os yr ydym i facsimeiddio potensial pob un o'n pobl a bod yn hollol gynhwysol yn ein gwelediad i'r dyfodol o genedl sy'n ffynnu.

Annog Arloesedd

Bydd angen dulliau wedi eu ffocysu ar rywedd ar y cynlluniau gweithrediad i ddatblygu gweithgaredd Ymchwil a Datblygiad Cymru, gan gynnwys annog gweithgaredd STEM ym mhrifysgolion Cymru. Mae ystadegau yn dangos fod perfformiad menywod mewn gwyddoniaeth a thechnoleg yn yr ysgol, addysg bellach ac addysg uwch yn gryfach nag erioed o'r blaen. Er gwaethaf hyn, mae cynrychiolaeth menywod mewn cyflogaeth a hunangyflogaeth yn y sectorau gwyddoniaeth , peirianneg a thechnoleg yn isel iawn.

Wrth baratoi rhaglenni i ddatblygu bas sgiliau Cymru yn y meysydd hyn, mae'n rhaid i'r Prif Ymgynghorydd Gwyddoniaeth a thimau perthnasol sicrhau eu bod yn cael eu llunio i ddenu, datblygu a chadw menywod, trwy gydnabod bydd hyn yn aml yn gofyn am agwedd wahanol o'r gweithgareddau traddodiadol. Bydd hyn yn hanfodol wrth sicrhau fod gan Gymru'r set sgiliau i yrru ymchwil yn ei flaen yn y pedwar maes blaenoriaeth Ymchwil a Datblygu sy'n cael eu dynodi

Targedi cymorth i fusnes - y chwe sector blaenoriaeth

Rydym yn cydnabod yr angen i ffocysu cefnogaeth busnes yn y chwe sector sy'n cael eu dynodi. Mae rhywedd yn effeithio ar bob sector mewn ffyrdd gwahanol. Mewn rhai achosion, er enghraifft "deunyddiaeth uwch a gweithgynhyrchu", yr her yw denu a chadw menywod yn y lle cyntaf. Mewn eraill, megis "gwasanaethau ariannol a phroffesiynol", mae angen i'r ffocws fod ar gadw a dilyniant menywod yn y gweithle. Rhaid i'r rhaglenni i gefnogi busnesau o'r fath, yn enwedig wrth ystyried sgiliau, angen rhoi ystyriaeth i'r persbectif rhywedd.

Targedi cymorth i fusnes – annog mentergarwch

Rydym yn croesawu'r newidiadau i gefnogaeth busnes uniongyrchol a nodi'r cynigion o amgylch adnabod lle mae'r bylchau yn bodoli mewn darpariaeth marchnad. Rydym hefyd yn cytuno'n llwyr gyda'r angen i'r Llywodraeth gymryd rôl wrth annod mentergarwch.

Un maes allweddol lle mae darpariaeth marchnad heb gyrraedd y nod yw mentergarwch menywod. Mae menywod yn mynychu hunangyflogaeth yn aml o sefyllfa o anweithgarwch economaidd ac o ganlyniad maent angen set wahanol o fentrau cefnogol i'w cymheiriaid gwrywol, sy'n fwy tebygol o fynychu o un ai cyflogaeth neu gyflogaeth ddiweddar.

Mae mynediad i gyllid, a'r gallu i sicrhau eu bod, fel y dywed y Cynllun Adnewyddu'r Economi yn "barod am gynigion" yn fater allweddol i fenywod entrepreneuraidd, o bersbectif eu datblygiad eu hunan a hefyd y stereoteipiau sy'n aml yn dylanwadu ar y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan fanciau a darparwyr cyllid eraill. Eto mae angen dull deilwredig.

Lle gall Chwarae Teg helpu

Dros yr 18 mlynedd diwethaf, mae Chwarae Teg wedi gweithio gyda llywodraeth, cyflogwyr, rheolwyr ac unigolion, yn darparu arbenigedd i gynorthwyo gyda'r llunio ac addasiad rhaglenni sy'n cyfeirio at nifer o'r blaenoriaethau sy'n cael eu hamlinellu uchod. Mae gennym hefyd prosiectau sydd wedi eu llunio'n llwyddiannus (yn cael eu cyllido gan Gronfeydd Strwythurol Ewrop a Llywodraeth Cynulliad Cymru) i ymdrin â'r union feysydd hyn, gan gynnwys er engraifft:

- Ready SET Go: yn herio gwahaniad galwedigaethol trwy weithio gyda menywod cyflogwyr ac addysgwyr.
- Menter Menywod Cymru, yn annog entrepreneuriaeth benywaidd
- Menter Rhieni Unigol (rhan o Potentia)
- Prosiectau Cydbwyso Bywyd a Gwaith a Gweithio Hyblyg
    - Prosiect Peilot Cydbwyso Bywyd a Gwaith gyda sefydliadau sector Cyhoeddus Mawr (2002-2005)
    - Cydbwyso Bywyd a Gwaith mewn Ysgolion (2005-2007)
    - Cronfa Her Cydbwyso Bywyd a Gwaith (2000-2006)

Mae gan ein rôl ni wrth arwain y Strategaeth Cydbwyso Bywyd a Gwaith yng Nghymru (2005-2008) Cael y Cydbwysedd Cywir, hyrwyddo a gweithredu arferion Gweithio Hyblyg ar draws Cymru, berthnasedd penodol , wrth gyfrannu at y defnydd effeithiol o'r seilwaith TGCh arfaethedig, yr agenda carbon isel a lles gweithwyr yng Nghymru.

Mae ein prosiect presennol Cenedl Hyblyg, sy'n cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop, yn ymdrin â chydraddoldeb rhyw yn y gweithle trwy weithio gyda menywod, cyflogwyr ac addysgwyr i alluogi menywod i symud ymlaen yn eu gyrfaoedd.

Tra bod y prosiectau hyn yn bwysig ar sail cydraddoldeb, maent hefyd yn enghreifftiau da o le mae gweithredu effeithiol yn gallu cael ei gymryd i sicrhau fod yr economi yn gallu elwa o dalentau a sgiliau menywod. Byddem yn croesawu'r cyfle i ddefnyddio ein harbenigedd cronedig i gynorthwyo gyda'r cynlluniau gweithrediad ar gyfer y Rhaglen Adnewyddu'r Economi, trwy ein gwaith gyda'r Adran Economi & Thrafnidiaeth yn ogystal â'r APADGOS o dan ein Cytundeb Cyllido Craidd a thrwy brosiectau pellach o dan raglenni Ewropeaidd neu gyllid eraill.

Byddem yn hapus i drafod gyda chi ble gall eich gweithredoedd gael eu targedi orau i gefnogi cynlluniau gweithrediad Llywodraeth y Cynulliad.

Yr eiddoch yn gywir

Katy Chamberlain

cc. Lesley Griffiths AC, Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau
Jane Davidson AC, Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai